# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council
## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar
## nos Lun 21ain o Tachwedd 2022 am 7:28pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Jones Evans, Geraint Evans, Alan H Jones, Richard C Evans, Geraint Edwards

Un aelod o'r cyhoedd

1. Ymddiheuriadau: Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 17 Hydref 2022:

Trafodwyd ymgynghoriad Gwynedd Ni. Adroddwyd bod cymunedau yn medru dod at eu gilydd er mwyn ceisio am arian, gyda'r cam nesaf yw rhagor o ymgynghori gyda'r gymuned.

Nodwyd bod cyfarfod blynyddol APCE wedi ei gynnal, ble rhoddwyd adroddiad ar ddau brosiect yr awdurdod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn gofyn am gyngor ar glefyd y lleng filwr.

4. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2022/2023:

**PENDERFYNIAD:** I barhau gyda'r aelodaeth.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101810 | £766.84 |
| Cyllid a Thollau EM | Treth | 101811 | £191.80 |
| Dŵr Cymru | Dŵr | 101812 | £119.57 |
| B Gwilym | Nwyddau swyddfa | 101813 | £5.50 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth | 101814 | £132.00 |
| B Gwilym | Teleffon | 101815 | £60.00 |
| Jones & Jones | Pentref | 101816 | £648.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

6. Ambiwlans Awyr Cymru - pryder am gynlluniau arfaethedig i adleoli hofrenyddion - diweddariad:

Adroddwyd bod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Pendre yn Nhywyn ar nos Iau, 24 Tachwedd 2022 am 7 yr hwyr.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyngor Gwynedd - Cysgodfa Bws - diweddariad:

Adroddwyd bod gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad yw'r cyngor mewn sefyllfa ariannol i brynu cysgodfa bws, nac oes cysgodfa ail law ar gael.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I roi copi o'r ohebiaeth ar yr hysbysfwrdd.
I drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

8. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cyfreithiol - Rhybudd Cau Ffordd - Ysgubor Wen-Glan yr Afon-Pandy, Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Dyfynbris i atgyweirio'r hysbysfwrdd:

Yr oedd dau ddyfynbris wedi ei dderbyn.

Nodwyd bod yr arwydd llwybr beicio ger y toiled wedi pydru yn ddifrifol, trafodwyd pwy oedd yn gyfrifol am yr arwydd – gyda chorff Sustrans yn cael ei gynnig.

**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorydd Geraint Evans i edrych ar yr hysbysfwrdd er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cadeirydd a'r Clerc o beth sydd angen er mwyn ei atgyweirio.

10. Un Llais Cymru - Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer 2022-2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cytundeb cenedlaethol, gan ôl-ddyddio cyflog y Clerc i Ebrill 2022.

11. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Jones a Jones wedi rhoi ffyn gyferbyn a'r coed afalau
-Angen gorffen clirio'r sied
-Angen chwe sach er mwyn llenwi tyllau cwningod
-Nobyn ar un o'r drysau wedi torri

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorwyr Geraint Evans ag Alan H Jones i edrych ar y drws

12. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Wedi derbyn nifer o e-byst a galwadau yn erbyn codi premiwm tai gwag ac ail gartrefi i 300%
-Cabinet yn argymell codi'r premiwm i 150%
-Y Cabinet yn cyhoeddi cynllun digartrefedd ar gyfer y Sir
-Wedi mynychu cyfarfod misol gyda'r Bwrdd Iechyd. Bwriad o agor canolfan galw i mewn ym mis Ionawr 2023, gan gyfeirio at wasanaethau eraill ee y fferyllydd
-Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau, bwlch oddeutu deunaw miliwn o bunnoedd yn y gyllideb, gyda'r Prif Weithredwr eisoes wedi siarad gyda'r staff

Nodwyd bod rhywun yn gyrru cerbyd ar y llwybr cerdded a beicio rhwng Bryncrug a Thywyn

Gofynnwyd i'r Cynghorydd am wybodaeth am y rheswm bod arwydd ffordd wedi cau ar y ffordd rhwng Rhyd yr Onnen a Chwm Maethlon.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorydd Bethan Lawton i wneud ymholiadau am y ffordd.

13. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** Dim i'w nodi.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:36pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................